# 11. POBOL A CHYMDEITHAS

## Ffeithiau Allweddol

| |
|---|
| Mae poblogaeth yr AHNE wedi cynyddu 4% ers 2001 ac erbyn 2011 roedd yn 6,108 |
| Mae poblogaeth yr AHNE yn adlewyrchu poblogaeth sy'n heneiddio, gyda'r gyfran fwyaf o bobl rhwng 60-74 oed. |
| Bu gostyngiad yn y rhai wedi eu geni yn yr AHNE o 12.6% rhwng 1981 a 2011. |
| Bu gostyngiad ym mhrisiau tai yn yr AHNE ac eithrio ardaloedd Morfa Nefyn a Thudweiliog. |
| Mae'r nifer o deuluoedd gyda phlant dibynnol yn yr AHNE wedi parhau'n sefydlog ers 2001 |
| Mae lefelau o bobl gyda salwch cyfyngus hirdymor wedi gostwng yn yr AHNE ers 2001, yn unol â'r gostyngiad cenedlaethol. |
| Mae gostyngiad bychan wedi bod yn yr AHNE yn lefelau amddifadedd ers 2005 |

## 11.1 Cyflwyniad

11.1.1 Beth yw ardal heb ei phobol? Mae pobol leol Llŷn a'r gymdeithas y maent yn eu ffurfio yn rhan greiddiol o gymeriad yr ardal. Fel y tirlun naturiol hardd a'r cyfoeth o fywyd gwyllt mae'r gymdeithas a'i phobol yn nodwedd unigryw o'r Penrhyn ac mae'r Cynllun Rheoli yn adnabod hynny. Y gobaith yw y gall y Cynllun chwarae rhyw ran tuag at warchod a chynnal cymunedau cynhenid Llŷn yn ogystal â chynorthwyo mewnfudwyr i ddysgu am ei hanes, diwylliant a'r iaith a dod yn rhan o'r gymuned.

11.1.2 Yn ogystal â chynnal iaith a diwylliant unigryw'r ardal mae'r gymdeithas hefyd wedi cynnal ac ychwanegu at amgylchedd naturiol yr ardal fel trin y tir, cynnal coed, codi a chynnal cloddiau a waliau cerrig. Hefyd mae crefftwyr adeiladu lleol fel seiri coed a seiri maen yn bwysig, y bobl yma sydd wedi adeiladau a chynnal adeiladau traddodiadol yr ardal.

11.1.3 Wrth gwrs mae lles ac amgylchiadau byw pobol leol yn bwysig yn ogystal â'r gymdeithas yn gyffredinol. Felly mae'r rhan hwn o'r Cynllun Rheoli hefyd yn rhoi sylw i anghenion sylfaenol o ran cartrefi, gwasanaethau a chyfleusterau - materion sy'n dylanwadu ar les a safon byw'r boblogaeth yma yn Llŷn.

11.1.4 At bwrpas y Cynllun Rheoli fe osodir y Brif Nod ganlynol o ran Pobol a Chymdeithas:

### Prif Nod

| |
|---|
| **HYBU CYMUNEDAU MWY HYFYW GYDA DARPARIAETH O DAI, CYFLEUSTERAU A GWASANAETHAU AR GAEL YN LLEOL.** |

## Nodweddion Arbennig

### 11.2 Y boblogaeth yn gyffredinol

11.2.1 Fel nodwyd, mae pobol Llŷn a'r gymdeithas y maent yn eu ffurfio yn rhan greiddiol o gymeriad yr AHNE. Mae'n bwysig felly fod y Cynllun hwn yn rhoi sylw i amgylchiadau pobl a'r materion allweddol sydd yn effeithio arnynt.

11.2.2 Gyda 71.8% o boblogaeth cymunedau'r AHNE yn siaradwyr Cymraeg, maent yn cynnal iaith a diwylliant unigryw'r ardal. Mae'r gymdeithas hefyd wedi cynnal ac ychwanegu at amgylchedd naturiol yr ardal gydag amryw o grefftwyr a gweithwyr gyda sgiliau arbenigol.

11.2.3 Dengys adroddiad diweddar ar Gyflwr yr AHNE (2014), fod poblogaeth yr ardal wedi cynyddu o 4% ers 2001 a bellach yn cyrraedd 6,108. Nodweddir y boblogaeth gan bobl sy'n heneiddio, gyda'r gyfran fwyaf rhwng 60 a 74 oed. Mae'r ffaith fod pobol yn byw yn hŷn yn rhannol gyfrifol am hyn ond hefyd mae natur y boblogaeth yn newid oherwydd mudo. Ceir allfudiad cyson o bobl ifanc sydd wedi eu geni a'u magu yn yr ardal. Amlygwyd y prif resymau am hyn yn y Cynllun blaenorol mewn astudiaeth gan Brifysgol Cymru Bangor, i fudo yng Ngwynedd a Môn. Ni ragwelir unrhyw newid yn y rhesymau a restrir isod:

- lleihad mewn swyddi yn y diwydiannau traddodiadol
- diffyg cyfleon cyflogaeth newydd
- diffyg cyfleoedd addysgol
- dymuniad am ffordd wahanol o fyw (e.e. mewn tref)
- dymuniad i fyw mewn man penodol.

11.2.4 Mae ffactorau amrywiol yn denu pobol sydd wedi eu geni a'u magu yma i adael– materion fel cyfleon addysg, swyddi, bywyd y ddinas a chysylltiadau teuluol/ ffrindiau.

11.2.5 Ar y llaw arall mae pobol a theuluoedd yn symud i mewn i'r ardal. Mae ffigyrau yn dangos fod cyfran uchel o'r rhai sy'n symud i'r ardal yn bobl wedi ymddeol ond yn fwy diweddar gwelwyd cynnydd mewn teuluoedd ifanc a chanol oed. Yn 2011, datganwyd mai 65.9% o boblogaeth yr AHNE oedd wedi eu geni yng Nghymru – mae hyn wedi gostwng dros y tri chyfrifiad diwethaf, gan ddangos bod mewnfudo ar gynnydd.

11.2.6 Pobol o wahanol rannau eraill o Gymru a Phrydain yn bennaf yw'r rhai sy'n dod yma i Lŷn ond mae rhai o leiafrifoedd ethnig yn ogystal. Yn gyffredinol mae dwy garfan o bobl yn tueddu i fewnfudo i'r ardal sef pobol hŷn yn dod i ymddeol a theuluoedd yn dewis newid ffordd o fyw ac yn gadael ardaloedd trefol i fyw yng nghefn gwlad.

### 11.3 Cyfalaf Cymdeithasol yn Llŷn

11.3.1 Y term a ddefnyddir i grynhoi'r patrymau a'r cysylltiadau sy'n bodoli

mewn cymdeithas a'r gwahanol werthoedd sydd yn uno pobol at ei gilydd yw cyfalaf cymdeithasol neu "social capital". Po gryfaf ydi'r rhyngberthynas rhwng pobol â'i gilydd yna cryfaf yn y byd yw'r ymdeimlad o ysbryd cymunedol.

11.3.2 Mae'r cysylltiadau cymdeithasol dan sylw yn cynnwys ymdeimlad o berthyn a chymdogaeth, patrymau cymdeithasol a chyfranogiad mewn digwyddiadau. Dengys astudiaethau fod cyfalaf cymdeithasol yn bwysig a bod cysylltiad rhwng y lefelau hyn ac iechyd pobol, cyraeddiadau addysgol, llwyddiant o ran cyflogaeth a lefelau o droseddu. Gall mesur cyfalaf cymdeithasol fod yn gymhleth ac fel arfer bydd hyn yn cael ei wneud ar sail arolygon barn sydd yn gofyn cwestiynau megis:

- lefel o ymddiriedolaeth, ydi'r gymdogaeth yn un ddiogel?
- lefelau aelodaeth o grwpiau, cymdeithasau neu glybiau;
- cysylltiadau gyda chyfeillion a theulu.

11.3.3 Wrth adolygu'r Cynllun hwn nid oedd yn bosibl cynnal arolygon penodol i archwilio i gryfder y cyfalaf cymdeithasol yma yn Llŷn ond mae gwybodaeth gyffredinol yn awgrymu ei fod yn gryf iawn. Y prif faterion sydd yn awgrymu hyn yw:

- Ar y cyfan mae'r gymdogaeth yn un lle mae rhyngweithio da a lefel uchel o ymddiriedaeth rhwng cymdogion. Mae lefelau troseddu yn isel yn yr ardal.
- Mae lefel uchel o aelodaeth grwpiau, cymdeithasau a chlybiau – megis Merched y Wawr, Cymdeithasau Capeli/Eglwysi, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Clwb Chwaraeon, Clybiau Llenyddol a Chymdeithasol ayb;
- Mae cysylltiad cryf rhwng pobol, cyfeillion a theuluoedd a llawer yn adnabod ei gilydd ac yn ymwybodol o gysylltiadau teuluol;
- Mae carfannau yn amlwg yn y gymuned yn Llŷn. Mae hyn yn arbennig o wir am y pentrefi llai lle mae pawb yn tueddu i adnabod ei gilydd a theimlad o berthyn yn gryf. Hefyd mae perthynas gref rhwng pobol yn yr un math o waith - megis ffermwyr, adeiladwyr, athrawon a.y.b.

## 11.4 Cynnal Iaith a Diwylliant

11.4.1 Trigolion Llŷn sydd wedi bod yn gyfrifol am gynnal diwylliant arbennig yr ardal ar hyd y canrifoedd a chynnal yr iaith Gymraeg, sydd ynddynt eu hunain yn adnoddau pwysig ac yn faterion sydd wedi eu hadnabod fel rhai o rinweddau arbennig Llŷn yn y Cynllun hwn. Mae diwylliant yn rhywbeth eang iawn wrth gwrs ac yn cynnwys traddodiadau, hanesion, arferion, chwedlau ac ofergoelion. Rhoddwyd sylw llawn i ddiwylliant ac iaith fel nodweddion amlwg o Lŷn eisoes yn y Cynllun.

## 11.5 Arfer a Chynnal Sgiliau

11.5.1 Yn ogystal â hyn mae pobol Llŷn yn meddu ar sgiliau amgylcheddol a

gwledig allweddol sydd yn cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth a hefyd yn cael eu meithrin o'r newydd. Mae'r sgiliau hyn wedi bod o gymorth i greu a chynnal cymaint o nodweddion sy'n cael eu gwerthfawrogi heddiw - nodweddon megis cloddiau, waliau cerrig, adeiladau a strwythurau traddodiadol.

11.5.2 Y prif sgiliau gwledig gan bobol ardal Llŷn yw:

- Codi a chynnal cloddiau a waliau cerrig sych,
- Cynnal ac addasu adeiladau hanesyddol - gwaith coed, morter calch, ail doi hefo llechi a.y.b.
- Dulliau amaethu traddodiadol e.e. cynnal caeau gwair, cynnal tiroedd gwlyb, cynnal gwrychoedd a choedlannau.
- Cynnal tiroedd yn gyffredinol a rheoli rhywogaethau ymledol.

## 11.6 Cyfleusterau Cymunedol

11.6.1 Mae cyfleusterau a gwasanaethau digonol yn bwysig ar gyfer meithrin cymdeithas ac ar gyfer cynnal cyfalaf cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae darpariaeth dda o gyfleusterau cymunedol traddodiadol megis neuaddau pentref ac adeiladau at ddefnydd cyhoeddus (e.e. adeiladau crefyddol) yn yr ardal. Mae rhain yn bwysig ar gyfer cynnal gweithgareddau megis cyfarfodydd, cynnal cyrsiau hyfforddiant, adloniant, digwyddiadau codi arian ac yn y blaen.

11.6.2 Yn ddiweddar mae llawer o'r adeiladu hyn wedi eu gwella a'u gwneud oherwydd eu pwysigrwydd mewn bywyd cymunedol y fro. Hefyd mae angen sicrhau fod yr adeiladau a'r cyfleusterau yn addas ar gyfer yr anabl a bod cyfleusterau effeithiol ar gyfer gwahanol weithgareddau modern, megis cyfrifiaduron a'r we.

11.6.3 Mae nifer o gyfleusterau hamdden yn yr ardal – ar gyfer poblogaeth leol ac ymwelwyr. Maent yn cynnwys cae pob tywydd Ysgol Botwnnog, Clwb Chwaraeon Bodegroes a Chanolfan Hamdden Dwyfor sy'n cynnig amryw o gyfleusterau hamdden yn cynnwys; pwll nofio, ystafell ffitrwydd, cyrtiau badminton, tennis a sboncen, cae pêl droed a maes ymarfer.

11.6.4 Ceir enghreifftiau hefyd o fentrau cydweithredol llwyddiannus yn ardal sy'n darparu gwasanaeth cymunedol fel Tafarn y Fic a Siop y Groes ym mhentref Llithfaen. Rhoddir sylw pellach i'r mater yma yn y bennod ar Gwaith, Cynnyrch a Sgiliau.

**<u>Materion Allweddol</u>**

## 11.7 Allfudo Pobl Ifanc

11.7.1 Mae hwn yn bwnc sy'n effeithio'n fawr ar yr ardal. Caiff pobl ifanc eu denu o'r ardal am nifer o resymau. Ymysg y rhai mwyaf amlwg, mae diffyg swyddi, diffyg swyddi addas, gadael i astudio ac hefyd yr apêl i brofi bywyd

mewn trefi a dinasoedd. Oherwydd absenoldeb unrhyw sefydliad addysg bellach yn yr ardal a phwyslais cynyddol ar gymwysterau rhagwelir y bydd parhad yn y bobol ifanc sydd yn gadael yr ardal am resymau addysgol - gyda chanran gweddol uchel ddim yn dychwelyd i'r ardal.

11.7.2 Rhagwelir parhad hefyd yn y duedd i adael yr ardal i chwilio am waith fel mae cyfleon yn lleihau ymhellach yn y diwydiannau traddodiadol a'r tebygolrwydd o unrhyw ddiwydiant cynhyrchu yn sefydlu yn yr ardal yn annhebygol.

11.7.3 Os oes dymuniad gan bobl leol i fyw a gweithio yn yr ardal, mae'n bwysig ceisio sicrhau fod cyfleoedd ar gael iddynt ac amrywiaeth o swyddi a chyrsiau amrywiol ac addas ar gael. Rhoddir mwy o sylw i hyn yn y bennod ar Gwaith, Cynnyrch a Sgiliau. Credir hefyd fod lle i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc am y manteision o fyw yn lleol, neu ddychwelyd i'r ardal ar ôl cyfnod i ffwrdd.

## 11.8 Mudo i'r Ardal

11.8.1 Mae pobol wedi mudo i'r ardal hon ar wahanol gyfnodau dros y blynyddoedd ac roedd hynny yn creu amrywiaeth mewn cymdeithas. Yn hanesyddol dod yma i weithio yn y gweithfeydd mwyn neu chwareli fyddai pobol a daeth rhai adeg y rhyfel ond yn ddiweddar mae pobol yn symud i'r ardal oherwydd eu bod yn dewis newid ffordd o fyw. Mae mudo i'r ardal yn rhywbeth sy'n gallu dylanwadu ar wëad cymdeithas ac yn dylanwadu ar y defnydd o'r iaith a'r diwylliant sy'n rhan o gymeriad unigryw yr ardal.

11.8.2 Credir fod angen cymryd mesurau i godi ymwybyddiaeth pobol sy'n mudo i'r ardal o'r hanes a'r diwylliant a cheisio eu cymhathu gyda'r gymdeithas

## 11.9 Cartrefi Gwyliau a Phrisiau Tai

11.9.1 Mae sicrhau cartref addas yn bwysig i drigolion lleol. Gall trafferthion i gael tŷ neu lety addas fod yn rhan o'r rheswm pam fod rhai pobol yn gadael yr ardal.

11.9.2 Mae ail gartrefi/cartrefi gwyliau yn ffurfio rhan sylweddol o stoc dai'r ardal. Yn naturiol mae'r cyfanswm yn amrywio o ardal i ardal gyda'r nifer mewn mannau gwyliau poblogaidd megis Llanengan a Llanbedrog yn uchel. Hefyd mae cartrefi gwyliau yn creu cystadleuaeth ychwanegol am dai yn yr ardal ac yn dylanwadu ar brisiau tai. Yn sicr mae'r ffaith fod Llŷn yn ardal mor hardd ac atyniadol wedi cyfrannau at apêl cael cartref gwyliau yma.

11.9.3 Er fod ffigyrau yn dangos fod gostyngiad wedi bod ym mhrisiau tai ym mhob un o ardaloedd Llŷn rhwng 2008 a 2013, ag eithrio plwyfi Aberdaron, Morfa Nefyn a Thudweiliog mae prisiau tai yn parhau yn uchel – yn enwedig o ystyried cyflogau lleol. Mae rhai cynlluniau wedi

bod i gynorthwyo pobol leol fodd bynnag gan wahanol asiantaethau megis Cyngor Gwynedd a datblygwyr preifat i ddarparu tai fforddiadwy. Mae cynorthwyo pobol leol i sicrhau tai yn lleol yn bwysig ac mae hyrwyddo cynlluniau sy'n cynorthwyo pobol i brynu neu rentu am brisiau rhesymol yn rhan o hyn.

11.9.4 Rhwng 1997 a 2003 roedd 96.9% o gynnydd ym mhrisiau tai Gwynedd i'w gymharu â 84.8% ar gyfer Cymru. Mae gwybodaeth ddiweddarach yn dangos fod prisiau tai yn ardal Llŷn yn wedi gostwng mewn rhai ardaloedd – gan ddilyn patrwm cenedlaethol. Ni chafwyd gwybodaeth mwy diweddar am brisiau tai lleol ond yr argraff yw fod prisiau wedi cynyddu yn raddol yn y rhan fwyaf o ardaloedd a chynyddu yn sylweddol mewn pentrefi arfordirol poblogaidd.

## 11.10 Tai Gwag

11.10.1 Mae gwybodaeth yn Adroddiad i Gyflwr yr AHNE (2014) yn dangos fod gan y ddwy ardal o'r AHNE (gorllewin a dwyrain) ar gyfartaledd fwy o dai gwag na Gwynedd a Chymru. Hefyd mae gwahaniaeth mawr rhwng nifer y cartrefi gwag yn yr ardal ddwyreiniol (19.7% heb breswylwyr arferol) a'r ardal orllewinol (36.7% heb breswylwyr arferol). Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu cynllun Tai Gwag ac efallai fod cyfle i hyrwyddo y cynllun yn benodol yn ardal Llŷn oherwydd y canran uchel o dai gwag a photensial hynny i gyfrannu tuag at gartrefi i bobol leol.

## 11.11 Amddifadedd Gwledig

11.11.1 Gwelwyd lleihad dros y degawdau diwethaf mewn gwasanaethau a chyfleusterau ar y Penrhyn - megis siopa, swyddfeydd post, tafarndai, modurdai ayb, yn enwedig pentrefi ac ardaloedd mwyaf gorllewinol. Hefyd bu toriadau ariannol yn y sector gyhoeddus i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau, gydag ymdrechion i gyflawni arbedion**.**

11.11.2 Nefyn, Abersoch a Phwllheli yw'r prif ganolfannau sy'n cynnig gwasanaethau i bobl yr AHNE. Mae mannau fel Botwnnog, Morfa Nefyn a Llanbedrog yn cynnig lefel gymedrol o wasanaeth, tra mae gwasanaethau yn brin iawn yn ardaloedd gwledig iawn fel Ceidio, Dinas a Llangwnnadl. Mae gwybodaeth fanwl am y gwasanaethau penodol ym mhob ardal yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (2015).

11.11.3 O ran y gwasanaethau sydd ar gael, mae natur wledig yr ardal heb os yn effeithio ar y rheiny. Mae ystadegau ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014) yn dangos hyn. Gyda phoblogaeth wasgarog sy'n heneiddio, mae mynediad at wasanaethau pwysig yn gallu bod yn anodd, ac mae cynlluniau yn yr ardal megis gwasanaeth O Ddrws i Ddrws yn adnodd pwysig i ymateb i anghenion.

## 11.12 Tlodi Tanwydd

11.12.1 Yn ôl amcangyfrifon diweddaraf, mae tua 23% o holl aelwydydd Cymru yn

dioddef tlodi tanwydd ac mae'n bwysig i drigolion yr ardal dderbyn pob cefnogaeth i ddefnyddio ynni'n fwy effeithiol yn eu cartrefi a helpu i ddygymod yn well ag unrhyw gynnydd ym mhrisiau ynni yn y dyfodol. Mae cynlluniau perthnasol megis Cynllun Cartrefi Clyd – Nyth gan Lywodraeth Cymru yn bwysig yn y cyd-destun hwn a dylid eto sicrhau fod digon o wybodaeth a chefnogaeth ar gael yn lleol. Mae hyn yn arbennig o wir yn dilyn diwedd y cynllun Cymunedau'n Gyntaf yn yr ardal.

## Polisïau

**CP 1. CYNNAL A GWELLA CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL LLEOL A'U GWNEUD YN FWY ADDAS I'R ANABL AC YN FWY YNNI EFFEITHIOL.**

Mae'n bwysig fod gan y cymunedau lleol fannau hwylus i gyfarfod a chynnal gweithgareddau cymdeithasol. Drwy waith caled mae llawer o welliannau wedi eu gwneud yn y blynyddoedd diwethaf ond mae lle i wella rhai mannau eto a bydd y Gwasanaeth AHNE a phartneriaid eraill yn gefnogol i gynlluniau i wella cyflwr adeiladau a'u gwneud yn fwy ynni effeithiol yn ogystal â gwella mynediad/ cyfleusterau i rai anabl.

**CP 2. HYRWYDDO CYMUNEDAU LLEOL I GYFRANNU AT OFALU Y DREFTADAETH LEOL YN CYNNWYS YMGYMRYD Â GWAITH GWIRFODDOL.**

Yn sicr mae gan gymunedau ddiddordeb mewn hanes a threftadaeth lleol o ystyried faint o sgyrsiau, arddangosfeydd ac ati sy'n cael eu cynnal a faint sy'n mynd iddynt. Fodd bynnag, nid oes llawer o waith ymarferol a gwirfoddol yn cael ei wneud ar hyn o bryd er fod rhai nodweddion fel ffynhonnau hanesyddol wir angen gwaith cynnal cyson. Bydd y Gwasanaeth AHNE yn cydweithio efo eraill i geisio hybu diddordeb yn y maes yma gyda'r gobaith o sefydlu cymdeithas neu sefydliad debyg i arwain ar waith cadwraeth ymarferol yn Llŷn.

**CP 3. CODI YMWYBYDDIAETH POBOL IFANC AM Y CYFLEON SY'N BODOLI A BUDDION ERAILL O FYW YN LLEOL.**

Mae ffigyrau yn dangos fod llawer o bobol ifanc yn gadael yr ardal am resymau yn cynnwys addysg, gwaith, profiadau newydd ayb. Wrth gwrs mae'n bwysig fod pobol ifanc yn cael addysg a phrofiadau newydd ond credir fod lle i godi ymwybyddiaeth am fanteision byw yn lleol a hefyd y cyfleon i ddychwelyd i'r ardal yn nes ymlaen.

**CP 4. ADFER AC AIL-DDEFNYDDIO TAI GWAG YN YR ARDAL.**

Yn sicr mae pobol leol yn cael trafferth i gystadlu yn y farchnad dai oherwydd prisiau uchel a chyflenwad cyfyngedig. Mae ymchwil wedi dangos fod canran uwch na'r cyfartaledd o dai gwag yn Llŷn ac fe allai'r tai yma gyfrannau at ateb cyfran o'r angen lleol am dai. Mae gan Gyngor Gwynedd gynllun Tai Gwag ers rai blynyddoedd bellach sydd yn rhoi cyngor ac arweiniad, grantiau, benthyciadau a gostyngiad Treth ar Werth. Hefyd mae gan Lywodraeth Cymru raglen Troi Tai'n Gartrefi sy'n rhoi benthyciadau di-log ar gyfer adfer ac ail-ddefnyddio tai gwag a Benthyciadau Gwella Cartref . Mae lle i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r cynllun

yn yr ardal.

**CP 5. GWNEUD TAI YN FWY YNNI EFFEITHIOL, ARBED YNNI A CHREU YNNI ADNEWYDDOL DOMESTIG.**

Mae llawer o dai yr ardal yn rhai hanesyddol ac ddim yn effeithiol iawn o ran y defnydd o ynni. Oherwydd hynny maent yn fwy costus i'w cynhesu a llawer yn dibynnu ar olew, glo neu dân coed i'w cynhesu sy'n cyfrannu at allyriannau CO2. Mae costau ynni uchel yn cyfrannau at amddifadedd gwledig. Bydd y Gwasanaeth AHNE a phartneriaid eraill yn gefnogol i gynlluniau arbed ynni a chreu ynni adnewyddol domestig lle na fyddai hynny yn golygu addasiadau fyddai yn amharu ar gymeriad tai hanesyddol neu'r dirwedd.

**CP 6. HYRWYDDO DARPARIAETH O DAI FFORDDIADWY LLE PROFIR FOD GWIR ANGEN LLEOL A SICRHAU FOD CYNLLUNIAU, DYLUNIADAU A DEUNYDDIAU YN GWEDDU I AMGYLCHEDD YR AHNE.**

Gorau oll os yw pobol leol yn medru prynu neu rentu tai o'r stoc bresennol a gobeithio y gall tai gwag gyfrannu at hyn. Mewn rhai achosion fodd bynnag, yn enwedig mewn cymunedau lle mae prinder tai ar werth a phrisiau tai uchel, mae cyfiawnhad dros ddarparu tai fforddiadwy o'r newydd. Bydd y Gwasanaeth AHNE yn gefnogol i fentrau i godi tai fforddiadwy newydd pan fo gwir angen a phan fo'r cynllun yn gweddu i dirlun arbennig yr AHNE o ran lleoliad a dyluniad.

**CP 7. CYNORTHWYO POBOL SY'N MUDO I'R ARDAL I DDYSGU AM HANES A DIWYLLIANT YR ARDAL A DYSGU'R IAITH GYMRAEG.**

Mae pobol wedi symud i ardal Llŷn ar hyd dros wahanol gyfnodau ac wedi cyfrannau at greu y gymuned sydd ohoni heddiw. Credir ei bod yn bwysig codi ymwybyddiaeth mewnfudwyr o hanes, diwylliant a thraddodiadau yr ardal trwy amrywiol ffyrdd. Hefyd fod pwyslais yn cael ei roi ar ddysgu ac ymarfer yr iaith Gymraeg sydd yn rhan mor bwysig o gymeriad yr ardal hon. Eisoes mae nifer o gynlluniau a mentrau da yn gweithredu yn y maes yma yn cynnwys Cyngor Gwynedd gyda'r pwyslais a roddir ar addysg drwy'r Gymraeg.